Horizon Nuclear Power
Sunrise House
1420 Charlton Court
Gloucester Business Park
Gloucester
GL3 4AE
T +44 (0) 1242 508508

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

NEWS RELEASE

I'W RYDDHAU AR UNWAITH
8 Chwefror 2019

Pŵer Niwclear Horizon yn cadarnhau dyddiad y Gymhorthfa Agored nesaf

Mae Pŵer Niwclear Horizon wedi cyhoeddi y bydd ei Gymhorthfa Agored nesaf yn cael ei chynnal ddydd Llun 18 Chwefror yn Neuadd Bentref Cemaes.

Does dim angen trefnu apwyntiad ar gyfer y sesiwn galw heibio, a fydd yn cael ei chynnal rhwng 1pm a 7pm. Bydd tîm Horizon yno i siarad â phobl leol am y Prosiect ac i ateb unrhyw gwestiynau.

Dywedodd Richard Foxhall, Rheolwr Materion Allanol Cymru yn Horizon: "Er bod y penderfyniad wedi cael ei wneud i ohirio Prosiect Wylfa Newydd, byddwn yn dal i gynnal ein Cymhorthfa Agored fisol ym mis Chwefror. Rydyn ni'n ymwybodol iawn fod gan bobl leol gwestiynau o hyd am y penderfyniad diweddar a byddwn ni yno i helpu i'w hateb."

Mae rhagor o wybodaeth am Brosiect Wylfa Newydd ar gael yn www.horizonnuclearpower.com, neu drwy ffonio 0800 954 9516, anfon e-bost i ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com neu ddilyn Horizon ar Twitter @horizonnuclear ac Instagram 'horizonnuclear'.

- DIWEDD -

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Richard Foxhall – 07807 769265 neu richard.foxhall@horizonnuclearpower.com

Nodiadau i olygyddion:

- Ffurfiwyd Pŵer Niwclear Horizon yn 2009 i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU. Prynwyd y cwmni gan Hitachi Ltd o Japan ym mis Tachwedd 2012.

- Bydd datblygiad Horizon ar Ynys Môn yn golygu buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd yng ngogledd Cymru, gan greu cyfleoedd cyflogaeth tymor hir o ansawdd da ac arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol parhaol i'r rhanbarth.